# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Mawrth 2021

Amser: 12.50 - 15.25

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11088

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Delyth Jewell AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Mandy Jones AS |
| Tystion: | Julie James AS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol<br>Hannah Blythyn AS, Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol<br>Emma Williams, Llywodraeth Cymru<br>Reg Kilpatrick, Llywodraeth Cymru<br>Jane Hutt AS, Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip<br>Alyson Francis, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

1.2. Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

1.3. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y canlynol:

- Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
- Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
- Emma Williams, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru
- Reg Mitchell-Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cydgysylltu Argyfwng Covid-19, Llywodraeth Cymru

## 3 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

3.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y canlynol:

- Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Phrif Chwip
- Alyson Francis, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gymunedau, Llywodraeth Cymru

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r cyfarfod gweinidogol ynghylch Sectorau Gwaith Tai a Chynllunio Gofodol ar y Cyd, y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC)

4.1.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn perthynas â chyfarfod gweinidogol Sectorau Gwaith Tai a Chynllunio Gofodol ar y Cyd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC).

### 4.2 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r cyfarfod gweinidogol ynghylch Sector Gwaith Cynhwysiant Digidol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig

4.2.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn perthynas â chyfarfod gweinidogol Sectorau Gwaith Cynhwysiant Digidol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC).

### 4.3 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

4.3.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

### 4.4 Cyflwyniad ysgrifenedig gan CICAIR i'r ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru (Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad)

4.4.a Nododd y Pwyllgor y cyflwyniad ysgrifenedig gan CICAIR ar yr ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru (Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad).

### 4.5 Ymateb gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

4.5.a Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod ar 18 Mawrth 2021

5.1. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Ymchwiliad i COVID-19 a’i effaith ar faterion sy’n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 3.